

Polisi Preifatrwydd Cerrig Camu Gogledd Cymru GDPR (Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data)

Mae Cerrig Camu Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd. Gydag unrhyw ddata personol a ddarparwch at ddibenion derbyn gwybodaeth am wasanaethau Cerrig Camu ac at ddibenion cyfathrebu neu ddefnyddio'r gwasanaethau cwnsela, Cerrig Camu yw'r Rheolwr Data ac mae'n gyfrifol am storio'r data hwnnw ac am ei brosesu mewn ffordd deg, gyfreithlon, diogel ac eglur.

Y data personol a ddaliwn amdanoch chi

Efallai y byddwch chi'n rhoi gwybodaeth i ni amdanoch eich hun mewn atgyfeiriadau, contractau a cheisiadau, neu drwy lenwi ffurflenni mewn digwyddiad neu ar-lein, neu drwy gyfathrebu â ni dros y ffôn, e-bost neu mewn ffordd arall. Gallai'r wybodaeth a rowch chi pan fyddwch yn cofrestru gynnwys eich enw, eich cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a gwybodaeth benodol sy'n ofynnol ar gyfer y broses gyfeirio ar gyfer derbyn cwnsela a gwasanaethau eraill.

Pam ein bod angen eich data personol

Y rheswm yr ydym angen eich data yw i allu rhoi gwasanaeth i chi. Ein rheswm cyfreithlon am brosesu eich data personol yw bod gennym ddiddordeb dilys mewn rhoi'r gwasanaethau i chi yr ydych yn cofrestru amdanynt.

Rhai o'r rhesymau pam ein bod angen prosesu eich data:

At ddibenion ariannu ac adrodd

- i rannu data di-enw gyda phartneriaid ariannu/comisiynwyr fel un o amodau'r cyllid grant
- i roi adrodd gyda gwybodaeth ddi-enw mewn cyhoeddiadau fel yr Adolygiad Blynyddol.

At ddibenion cysylltu a darparu gwasanaethau

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth gyswllt i gysylltu â chi am y gwasanaeth. Yn achlysurol, gallai hyn gynnwys deunyddiau marchnata yr ydym angen eich caniatâd ar eu cyfer.

Gyda phwy rydym yn rhannu eich data personol

Ni fyddwn yn rhannu eich data gydag unrhyw asiantaeth allanol heb gael caniatâd neu gais gennych. Rydym yn rhannu gwybodaeth at ddibenion marchnata.

Am faint o amser yr ydym yn storio/dal eich data personol

Ni fyddwn yn dal eich data yn hirach nag sydd raid. Byddwn yn dal eich data personol ar ffeil cyhyd ag y byddwch chi'n gleient i Gerrig Camu, ac am yr amser mae'n cymryd i adrodd am wybodaeth i'n harianwyr/comisiynwyr. Ein cyfnod dal data yw 7 mlynedd o'r dyddiad pan ddaw eich amser fel cleient i ben. Bydd unrhyw ddata personol a ddaliwn amdanoch yn cael ei ddinistrio'n ddiogel pan na fyddwn ei angen bellach. Nid yw eich data'n cael ei brosesu at unrhyw ddibenion pellach heblaw'r rheiny sydd wedi eu disgrifio yn y polisi hwn.

Eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol

O dan y gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau sy'n cynnwys:

Eich hawl mynediad – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopiau o'ch gwybodaeth bersonol.

Eich hawl i gywiriad - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol sy'n anghywir yn eich barn chi. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi.

Eich hawl i ddileu – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

Eich hawl i gyfyngu ar brosesu – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

Eich hawl i wrthwynebu prosesu – Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

Eich hawl i gludo data – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol a roesoch i ni i sefydliad arall, neu atoch chi, o dan amgylchiadau penodol.

Nid oes raid i chi dalu unrhyw ffi am arfer eich hawliau. Os byddwch yn gwneud cais, mae gennym fis i ymateb i chi.

Cysylltwch â ni yng Ngherrig Camu Gogledd Cymru ar 01978 352717/07814 358882 neu anfonwch e-bost i info@steppingstonesnorthwales.co.uk os ydych eisiau gwneud cais.

Os byddwch chi'n dewis peidio rhannu eich data personol â ni, efallai na fyddwn yn gallu rhoi rhai gwasanaethau i chi.

Sut i gwyno

Os oes gennych unrhyw bryderon am ein defnydd ni o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch gwyno i ni yng Ngherrig Camu Gogledd Cymru. Mae ein polisi cwyno ar gael ar ein gwefan, www.steppingstonesnorthwales.co.uk. Ffoniwch **01978 352717/07814 358882** neu e-bostiwch info@steppingstonesnorthwales.co.uk

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych yn anfodlon â'r ffordd yr ydym wedi defnyddio eich data.

Dyma gyfeiriad yr ICO:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113

Gwefan ICO: <https://www.ico.org.uk>